**Cofnodi Ar-lein - Ydych chi'n teimlo'n ddryslyd?**

Gofynnir yn aml i ni sut mae System Gofnodi Ar-lein Cofnod (ORS) yn gysylltiedig â systemau eraill fel iRecord, iNaturalist, ac Ap LERC Cymru (i enwi dim ond rhai) a ble dylai cofnodwyr gyflwyno eu data i sicrhau eu bod ar gael er budd cadwraeth natur yng Ngogledd Cymru. Gall ymddangos ar brydiau bod toreth o systemau ar gael i'w defnyddio, a all arwain at ddryswch.

Y peth pwysicaf i'w gofio yw **na ddylai fod rhaid i chi gyflwyno'ch cofnodion ddwywaith** 99% o'r amser. Mae gwneud hynny nid yn unig yn gwastraffu eich amser ond gall hefyd arwain at ddwy fersiwn ychydig yn wahanol o'r un cofnodion, neu o leiaf set ddyblyg o gofnodion. Os nad ydych yn siŵr a fyddwn yn gallu gweld cofnodion a gofnodwyd fel rhan o system benodol, cysylltwch ag Aisling (Rheolwr Data Cofnod) i wirio.

Yr ail beth i sylweddoli yw bod pob system yn wahanol, ac **efallai bod un yn iawn ar gyfer rhai o'ch cofnodion ond nid eraill.** Os ydych chi'n rhywun sydd â diddordebau cofnodi eang, yn enwedig os ydych chi'n cofnodi y tu mewn a'r tu allan i ardal Cofnod, efallai y bydd angen i chi ddefnyddio mwy nag un system.

Os ydych chi'n cofnodi cryn dipyn o wahanol grwpiau o rywogaethau, ac o bosibl yn eithaf newydd i gofnodi, mae'n debygol y bydd yn haws i chi ddefnyddio un o'r **systemau cofnodi ar-lein cyffredinol** fel **ORS Cofnod neu iRecord**. Mae'r rhain yn eithaf tebyg mewn gwirionedd, a dweud y gwir roedd ORS Cofnod, BirdTrack a'r system gofnodi ar-lein a ddatblygwyd gan ein LERC cyfagos yn Sir Caer i gyd yn bodoli cyn iRecord ac roeddem yn hapus i gyfrannu ein syniadau a'n profiad yn ystod ei ddatblygiad cychwynnol. Bellach gellir defnyddio **BirdTrack** hefyd ar gyfer cofnodion mwy cyffredinol gan ei fod yn caniatáu cofnodi rhai rhywogaethau eraill (gan gynnwys Mamaliaid a Gweision y Neidr).

Mae defnyddio un o'r systemau hyn yn golygu y dylai eich cofnodion fod ar gael **ar unwaith** i'r Cofnodwr Sirol perthnasol neu arbenigwr arall sy'n ymwneud ag ardal a grŵp rhywogaeth arbennig, sydd fel arfer yn cynrychioli **Cynllun Cofnodi Cenedlaethol neu Gymdeithas**, a fydd yn gwirio ac yn **dilysu** llawer o'r cofnodion. Mae dilyswyr lleol wedi'u sefydlu ar ORS Cofnod ar gyfer yr holl grwpiau rhywogaethau a gofnodir amlaf - nid yw pob un o'r unigolion hyn yn dilysu ar iRecord hefyd er bod arbenigwyr cenedlaethol yn chwarae rhan mewn dilysu rhai o'r grwpiau hyn. Ar ORS Cofnod defnyddir gwirio awtomatig i **flaenoriaethu'r** cofnodion sydd angen eu gwirio fwyaf, naill ai oherwydd bod y rhywogaeth dan sylw yn gymharol **anodd ei hadnabod**, neu oherwydd bod y rhywogaeth y **tu allan i'w hamrediad cyfarwydd**. Efallai hefyd bod yr **adeg o'r flwyddyn yn annhebygol** ar gyfer y rhywogaeth hon.

Mae cofnodion a gyflwynir gan ddefnyddio **Ap LERC Cymru** yn cael eu cadw yng nghronfa ddata iRecord mewn gwirionedd, gan fod yr Ap hwn yn seiliedig ar nifer o rai eraill sy'n bwydo i'r system hon. Mae **data a gedwir yn iRecord ar gael i Cofnod** ond rhaid eu lawrlwytho yn rheolaidd a'u mewnforio i'n cronfa ddata. Bu anawsterau technegol wrth reoli'r llif data hwn, ond gobeithiwn y bydd y broses yn gyflymach ac yn fwy effeithlon yn y dyfodol. Fodd bynnag, heb ddatblygiadau technegol sylweddol bydd **oedi** o rai misoedd o leiaf rhwng rhoi cofnod yn iRecord (neu ddefnyddio Ap LERC Cymru) a'i fod ar gael i'w ddefnyddio yng nghronfa ddata Cofnod. Mae'n rhaid i ni hefyd aros nes bod cofnodion yn cael eu dilysu yn iRecord cyn i ni eu defnyddio yng nghronfa ddata Cofnod, **felly yn dibynnu ar y grŵp rhywogaethau, mae'n bosibl y bydd dilysu'n digwydd yn gyflymach pan fydd cofnodion yn cael eu cofnodi'n uniongyrchol ar ORS Cofnod.**

Mae gan ddefnyddio **ap** y fantais eich bod yn gallu cyflwyno eich cofnodion tra yn y maes, os oes gennych chi **signal ffôn symudol**. Yn gyffredinol, mae apiau'n storio'r wybodaeth dros dro ar y ffôn nes bod gennych chi signal. **Gellir defnyddio ORS Cofnod yn effeithiol iawn ar ffôn clyfar**, ond dim ond pan fydd gennych signal ffôn symudol. Os ydych chi'n defnyddio ap neu ffôn clyfar, mae angen i chi gael signal GPS i gynhyrchu cyfeirnod grid cywir tra yn y maes.

Mae **iNaturalist** yn gymharol newydd i fyd cofnodi yng Nghymru – mae'n blatfform cofnodi ar-lein a ddefnyddir yn rhyngwladol gyda phwyslais ar atodi ffotograffau i gofnodion a chasglu consensws gan ddefnyddwyr eraill ynghylch enw cywir y rhywogaeth. Mae cofnodion iNaturalist yn cael eu rhannu ag iRecord bellach, ac yn cael eu dilysu fel rhan o'r system honno, a bryd hynny byddant ar gael i ni ynghyd â holl ddata eraill iRecord. Mae **data BirdTrack** ar gael i Cofnod hefyd ond maent yn cael eu cyflwyno i ni yn flynyddol, felly mae angen aros yn hirach cyn bod cofnodion ar gael.

Os ydych chi'n casglu cofnodion fel rhan o **brosiect monitro penodol neu'n cyfrannu at Gynllun Cofnodi neu Gymdeithas benodol**, yn gyffredinol bydd dull cydnabyddedig ar gyfer cyflwyno data, a hwnnw yw'r un y dylech ei ddefnyddio ar gyfer y cofnodion hynny, gan y bydd **gwybodaeth eithaf penodo**l y mae angen ei chasglu. Mae'n bosibl ei fod wedi'i seilio ar un o'r systemau a grybwyllwyd uchod, er enghraifft mae cryn dipyn o brosiectau monitro wedi'u sefydlu o fewn ORS Cofnod ar gyfer rhywogaethau penodol, sy'n cynnwys Gogledd Cymru a hyd yn oed Cymru gyfan, ond system arall fydd yn cael ei ffafrio o bosibl. Mewn rhai achosion gall **Cofnodwyr Sirol** gynghori hefyd ei bod yn well ganddynt i gofnodion gael eu hanfon atynt yn uniongyrchol, iddynt eu cyflwyno i Cofnod fel rhan o ddiweddariadau blynyddol, neu eu rhoi ar system benodol fel **BirdTrack** y BTO.

I grynhoi, siaradwch â ni neu'r Cofnodwr Sirol perthnasol os ydych yn ansicr ynghylch y dull gorau o gyflwyno data i chi. Rhowch gynnig ar un neu ddau o'r opsiynau a drafodwyd uchod efallai i weld pa un sydd fwyaf addas i chi, a chofiwch, po fwyaf eang yw'ch diddordebau cofnodi, y mwyaf o opsiynau y bydd angen i chi eu defnyddio efallai. Ar ddiwedd y dydd, bydd data'n cael eu rhannu rhwng y systemau y cyfeirir atynt uchod a Cofnod, yn ogystal â gyda Chofnodwyr Sirol, ond bydd cyflymder hyn yn amrywio.